Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 11.12.2020

## Cronfeydd Busnes Cyfyngiadau Rhagfyr 2020 Llywodraeth Cymru

Cyflwynwyd cyfyngiadau newydd yng Nghymru ar 4 Rhagfyr 2020 yn cynnwys cau lleoliadau adloniant ac atyniadau o dan do, a chau llefydd bwyta am 6:00pm ac atal gweini alcohol. Mewn ymateb i'r cyfyngiadau newydd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cymorth ariannol pellach i fusnesau fydd yn cael eu amharu yn uniongyrchol.

- Bydd busnesau lletygarwch cymwys, sydd wedi derbyn cymorth o'r Grantiau Clo Bach yn ddiweddar, yn derbyn eu taliadau yn uniongyrchol, a dylent dderbyn eu grant gan Gyngor Gwynedd erbyn diwedd yr wythnos nesaf.

- Bydd busnesau lletygarwch cymwys wnaeth ddim ymgeisio am Grant Clo Bach, ar rhai hynny sydd wedi eu lleoli yn eiddo gyda gwerth trethadwy

rhwng £51,001 a £150,000, hefyd yn derbyn cymorth ar ôl cwblhau ffurflen gofrestru byr, fydd ar gael o Ddydd Mercher, 16 Rhagfyr 2020.

- Bydd cymorth ar gael hefyd i fusnesau sy'n atebol am Drethi Busnes sydd yn cyflenwi'r sector lletygarwch, ac wedi eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn sylweddol gan y cyfyngiadau. Bydd ffurflen gais byr ar gyfer y busnesau hyn ar gael yn y dyfodol agos.

- Bydd peth cymorth ar gael hefyd i fusnesau lletygarwch a'r rhai sy'n cyflenwi'r sector lletygarwch sydd ddim yn atebol i Drethi Busnes, ac sydd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn sylweddol gan y cyfyngiadau. Bydd ffurflen gais byr ar gael i'r busnesau yma o ganol bore Dydd Llun, 14 Rhagfyr 2020 ar:

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

## Y Gwiriwr Cymhwystra ar gyfer y Gronfa Lletygarwch, Hamdden a Thwristiaeth yn fyw

Mae busnesau yn y sector Lletygarwch, Hamdden a Thwristiaeth yr effeithir arnynt gan y cyfyngiadau coronafeirws diwethaf bellach yn gallu cael gwybod faint y dylent ei dderbyn gan rownd ddiwethaf pecyn cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau. Mae'r Grant Penodol i'r Sector ERF COVID-19 £180 miliwn, ar gyfer busnesau yr effeithir arnynt yn y sectorau twristiaeth, hamdden a lletygarwch, yn cael ei weinyddu gan Llywodraeth Cymru. Mae gwiriwr cymhwystra newydd a chyfrifiannell bellach yn fyw ar wefan Busnes Cymru, i helpu busnesau i gyfrifo faint o gymorth y gallant ddisgwyl ei dderbyn. Hefyd bydd canllawiau ar gael i gwmnïau i'w helpu gyda'r broses o wneud cais am y Gronfa Benodol i'r Sector, a fydd yn agor yn yr wythnos sy'n dechrau ar 11 Ionawr 2021. Ewch i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/sectorspecificgrant/cy

## Cyhoeddi cynllun rheoli COVID-19 wedi'i ddiweddaru

Yn gynharach heddiw, mi wnaeth y Prif Weinidog, Mark Drakeford, gyhoeddi y bydd fersiwn wedi'i diweddaru o gynllun rheoli COVID-19 ar gyfer Cymru yn cael ei chyhoeddi'r wythnos nesaf. Ewch i:

https://llyw.cymru/cyhoeddi-cynllun-rheoli-covid-19-wedii-ddiweddaru

## Porth Sgiliau Busnes Cymru: Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Os ydy'ch busnes chi'n ystyried cyfle busnes newydd, technoleg newydd, cynllun ehangu a thwf, mae'n bosib iawn y gall Rhaglen Sgiliau Hyblyg eich helpu chi gyda chymorth ariannol tuag at uwchsgilio'ch staff gyda Phrosiectau Partneriaeth y Rhaglen Sgiliau Hyblyg. Am fwy o wybodaeth am y rhaglenni penodol, ewch i:

https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglen-sgiliau-hyblyg

## Lleihau'r cyfnod hunan-ynysu a chwarantin ar gyfer y coronafeirws i 10 diwrnod yng Nghymru

O ddydd Iau 10 Rhagfyr 2020, bydd yr amser y mae'n rhaid i bobl hunan-ynysu yn cael ei leihau o 14 niwrnod i 10 yng Nghymru. Mae hyn yn cael ei gymeradwyo gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Dr Frank Atherton, ac mae'n seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ynghylch y tebygolrwydd o fod yn heintus fel cyswllt ar ôl deng niwrnod. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://llyw.cymru/lleihau-cyfnod-coronafeirws-hunanynysu-i-ddeng-niwrnod-yng-nghymru

## Bwletin diweddaraf Croeso Cymru 10 Rhagfyr 2020

Mae mwy o wybodaeth am y Cyngor a chyngor ar gael ym mwletin diweddaraf Croeso Cymru, ewch i:

https://bit.ly/NewCroesoCymru10Rhag2020

## 100fed Bwletin Cefnogi Busnes Gwynedd

Y Bwletin Cefnogi Busnes Gwynedd yma ydi'r 100fed rhifyn i'w yrru ers diwedd Mawrth 2020, gyda dros 3,900 o fusnesau a sefydliadau yng Ngwynedd yn derbyn y bwletinau erbyn hyn!

Gwybodaeth sy'n cael ei raeadru:

- Cymorth ariannol o ffynonellau cyhoeddus
- Rheoliadau yn newid
- Datganiadau i'r wasg gan Cyngor Gwynedd
- Cyrsiau a gweminarau cefnogi busnes gan wahanol sefydliadau

Ers mis Mawrth mae Cyngor Gwynedd wedi rheoli chwech cynllun grant i helpu busnesau trwy'r pandemic gan wneud dros 8,000 o daliadau gwerth £68miliwn i fusnesau lleol. Yr ydym hefyd wedi gyrru dros 400 o Drydarau, sydd wedi'u gweld dros 190,000 o weithiau! Gobeithio bod y wybodaeth sydd wedi ei gylchredeg o werth i chi.

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

# Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

# Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

# Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru